Jane Hutt AC/AM
Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Minister for Business and Budget

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

30 Tachwedd 2010

Annwyl Dafydd

GORCHYMYN ADRODDIADAU ARCHWILIO AC ASESU (CYMRU) 2010

Rwy'n ysgrifennu atoch i ddweud, er mwyn dod â Gorchymyn Adroddiadau Archwilio ac Asesu 2010 i rym yng Nghymru, rhaid torri'r rheol 21 diwrnod. Caiff y Gorchymyn hwn ei wneud ar 29 Tachwedd a daw i rym ar 30 Tachwedd 2010. .

Bydd y Gorchymyn hwn yn newid y dyddiad erbyn pryd y bydd angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru anfon ei adroddiadau archwilio ac asesu at awdurdodau gwella Cymru a Gweinidogion Cymru. O dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol ar i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynhyrchu adroddiad archwilio ac asesu ar bob un o awdurdodau gwella Cymru (o dan y Mesur, mae awdurdodau gwella Cymru yn golygu awdurdodau lleol, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru). At hynny, yn ôl y Mesur, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru anfon copïau o'r adroddiadau archwilio ac asesu at awdurdodau gwella Cymru a Gweinidogion Cymru erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn i'r Gweinidog arfer ei bwerau o dan Adran 19(3)(b) y Mesur i newid y dyddiad erbyn pryd y dylai anfon ei adroddiadau archwilio ac asesu i 31 Ionawr a hynny ar gyfer eleni yn unig.

Mae dau reswm i gais yr Archwilydd Cyffredinol:

- Yn gyntaf, dyma flwyddyn gyntaf y drefn wella newydd a sefydlwyd gan y Mesur ac mae rhai o Awdurdodau Gwella Cymru wedi bod yn araf o ran cyhoeddi'u hamcanion gwella ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn wedi peri oedi i'r Archwilydd Cyffredinol o ran eu hasesu;

- Yn ail, dyma'r flwyddyn gyntaf pan fydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn cyhoeddi eu llythyrau at gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ar ôl adolygu hunanasesiadau'r cyfarwyddwyr o'u

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Jane.Hutt@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

gwasanaethau eu hunain. Fodd bynnag, efallai na fydd y llythyrau hyn ar gael mewn pryd i'r Archwilydd Cyffredinol allu cynnwys ei ganfyddiadau yn ei adroddiadau mewn pryd erbyn 30 Tachwedd.

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn credu bod cais Archwilydd Cyffredinol Cymru am gael gohirio'r dyddiad ar gyfer anfon ei adroddiadau archwilio ac asesu er mwyn iddyn allu cynnwys asesiad AGGCC o'r gwasanaethau cymdeithasol yn gais rhesymol. O dan y Mesur, mae dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i gymryd gwaith rheoleiddwyr perthnasol i ystyriaeth a byddai'n wendid mawr yn ei adroddiadau pe na bai'n cynnwys ynddynt ganfyddiadau'r AGGCC.

At hynny, dylai adroddiadau archwilio ac asesu'r Archwilydd Cyffredinol fod mor gynhwysfawr â phosibl a hynny er lles y cyhoedd. Mae pob awdurdod gwella yng Nghymru, yn enwedig yr awdurdodau lleol, yn darparu gwasanaethau hollbwysig y mae holl ddinasyddion Cymru yn dibynnu arnynt bob dydd. Mae'r ffaith bod archwilwyr allanol yn craffu ar eu stiwardiaeth ariannol ac ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn elfen bwysig o sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd. Trwy newid dyddiad cyhoeddi'r adroddiadau archwilio ac asesu, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cael defnyddio canfyddiadau'r AGGCC i ddod i gasgliadau am iechyd corfforaethol y sefydliad a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae awdurdodau lleol yn eu darparu i aelodau mwyaf bregus cymdeithas.

Ni fydd newid dyddiad cyhoeddi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn cael effaith ariannol ar awdurdodau gwella Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru nac ar unrhyw gorff cyhoeddus neu breifat arall.

Barn y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithas a Llywodraeth Leol yw mai'r ffordd orau o fodloni lles y cyhoedd yw trwy ohirio cyhoeddi adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol o ddau fis eleni yn unig. Nid oes asesiad wedi'i wneud o'r Gorchymyn hwn o'i effaith rheoliadol gan na chaiff effaith andwyol ar fusnesau, cyrff cyhoeddus nac ar elusennau na mudiadau gwirfoddol.

Dylai'r Gorchymyn ddilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol. Mae hyn yn golygu na ddylai fel arfer gael dod i rym tan o leiaf 21 diwrnod (calendr) ar ôl dyddiad ei wneud a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fodd bynnag, er mwyn cael newid 30 Tachwedd fel y dyddiad, sef y dyddiad a enwir yn adran 19(3)(a) y mesur fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru gyhoeddi ei adroddiad, bydd gofyn torri'r rheol 21 diwrnod. Heb wneud hynny, byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn torri ei ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad erbyn 30 Tachwedd a byddai hynny'n golygu y gellid herio unrhyw adroddiad y gallai Archwilydd Cyffredinol ei wneud. Fel y gwyddoch, mae Gweinidogion Cymru'n dibynnu ar adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol i gymryd unrhyw gamau canlyniadol yn erbyn awdurdod gwella yng Nghymru os bernir bod yr awdurdod yn methu o dan y Mesur. Mae'n hanfodol felly nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Janet Ryder AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ac at Stephen George, Clerc y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Yn gywir